



# Cymru fel Cenedl Heddwch

Adroddiad gan Academi Heddwch Cymru  
Awst 2024

Academi  
Heddwch  
Cymru

## Mynegai

- 4 Crynodeb Gweithredol
- 6 Argymhellion
- 8 Ynghylch Academi Heddwch Cymru
- 9 Y Cefndir
- 10 Cyflwyniad
- 12 Cenhedloedd Heddwch
- 14 Traddodiad Heddwch yng Nghymru
- 16 Cymru a Heddwch Rhyngwladol
- 19 Heddwch Cadarnhaol yng Nghymru
- 23 Asesu'r Cynnydd tuag at Gymru fel Cenedl Heddwch
- 25 Tuag at Gymru fel Cenedl Heddwch
- 28 Atodiad 1: Cymru fel Cenedl Heddwch: Y Sefyllfa Bresennol
- 34 Atodiad 2: Safleoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn a Lluoedd Arfog Prydain yng Nghymru

## Crynodeb Gweithredol

Mae heddwch yn golygu mwy nag absenoldeb rhyfel. Mae'n golygu creu byd gwell drwy greu cymunedau sy'n byw heb ofn, mae'n golygu adeiladu gwytnwch cymdeithasol ochr yn ochr â hawliau'r unigolyn, ac mae'n golygu hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, tegwch, parch a chydaddoldeb. Dyma'r hyn a elwir yn heddwch cadarnhaol.

Mae sawl gwladwriaeth wedi gwneud penderfyniadau bwriadol i osod heddwch yn gadarn ar eu hagendâu cenedlaethol, gan wneud heddwch yn rhan o'u hunaniaeth genedlaethol ac yn werth allweddol y cânt eu cydnabod amdano. Mae'r gwladwriaethau hyn yn ystyried heddwch fel rhywbeth sy'n esblygu yn rhan o ddeialog genedlaethol, a'r hyn sy'n eu nodweddu yw'r modd y maent yn cynnal perthynas â'i gilydd ac ag eraill.

Bydd dod yn Genedl Heddwch yn cyfoethogi proffil rhyngwladol Cymru yn sylweddol, yn yr un modd â 'chenhedloedd heddwch' eraill, a rhoi hunaniaeth unigryw i Gymru ar y llwyfan ryngwladol. Bydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y modd rydym yn ein llywodraethu ein hunain fel cenedl ddatganoledig gyda'n cymunedau a'n buddiannau amrywiol. Ond efallai yn anad dim, dylai Cymru fel cenedl a'i Llywodraeth hyrwyddo heddwch gan fod gwerth i hynny ynddo'i hun.

Ceir sylfaen gref er mwyn i Gymru ddatblygu'n Genedl Heddwch. Ers dros ganrif, mae pobl Cymru wedi cynnal mentrau arloesol i hyrwyddo heddwch, gan arwain y byd ar adegau. Yn sgil datganoli, mae'r posibilrwydd i arloesi ymhellach ac i ffurfio hunaniaeth gliriach fel Cenedl Heddwch wedi cynyddu'n aruthrol. Mae deddfwriaeth a pholisiau fel *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)* a'r ymrwymiad i gyrraedd sero net yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn gallu arloesi yn ogystal â rhoi arweiniad llawn gweledigaeth sydd â'r potensial i weddnewid pethau. Fodd bynnag, er gwaethaf cynnydd sylweddol tuag at heddwch cadarnhaol, mae llawer eto i'w wneud os yw Cymru am fod yn Genedl Heddwch.

Mae bod yn Genedl Heddwch yn ymwneud â'r modd y mae cenedl yn ei gweld ei hun ac yn ei chyflwyno'i hun i eraill. Elfen allweddol i Gymru felly fyddai hyrwyddo ei gwaddol balch o greu heddwch. Mae hyn yn bwysig nid yn unig wrth ddatlu cyfraniad cenedlaethol nodedig at lesiant byd-eang, ond o ran sefydlu hunaniaeth Cymru fel Cenedl Heddwch.

Serch hynny, mae sefydlu ein hunaniaeth fel Cenedl Heddwch yn golygu mwy na'r naratif rydym yn ei adrodd - mae hefyd yn golygu'r hyn a wnawn a'n ffyrdd o'i wneud. Mae'n ymwneud â'r modd y cynhaliwn berthynas â'n gilydd ac ag eraill, a'r modd y defnyddiwn ddeialog fel ffordd o fyw, bod yn agored i wahanol safbwyntiau a chredoau, a cheisio cydweithredu yn hytrach na gwrthdaro ag eraill, waeth a ydynt o'r un meddylfryd ai peidio. Ac mae'n golygu mwy na chyfres o gynlluniau polisi i'w gweithredu gan y Llywodraeth a thargedau iddi eu cyrraedd. Cyfeiriad ydyw y mae cymdeithas gyfan yn anelu tuag ato, gan gynnwys llywodraeth leol a sefydliadau cymdeithas sifil - y mae llawer ohonynt yn rhan o gynghreiriau rhyngwladol ehangach ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at heddwch.

Yn rhyngwladol, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo'n glir i sefydlu Cymru fel cenedl gyfrifol ar raddfa byd-eang, ac ni all yr un weithred gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw yn fwy na hyrwyddo heddwch. Er bod Llywodraeth Y Deyrnas Gyfunol wedi dal pwerau yn ôl o ran polisi tramor, amddiffyn, diogelwch a

datblygiad rhyngwladol, mae lle i Lywodraeth Cymru weithredu'n rhyngwladol. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau dros addysg a diwylliant, a gellir defnyddio'r naill a'r llall i gychwyn deialog a hyrwyddo heddwch yn ogystal ag ychwanegu llais at drafodaethau byd-eang. Mae Cymru hefyd wedi rhoi cymorth ymarferol ar gyfer datblygiad rhyngwladol, fel rhaglen 'Cymru ac Affrica', tra bo'i *Chynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches 2019*, sy'n anelu at sefydlu Cymru fel y 'Genedl Noddfa' gyntaf, yn dangos sut y gellir creu cyfleoedd i weithredu'n rhyngwladol drwy feddwl yn arloesol.

Nid yw gweithgareddau rhyngwladol Cymru wedi'u cyfyngu i'r Llywodraeth yng Nghaerdydd. Mae gan sefydliadau cymdeithas sifil, gan gynnwys y mudiad heddwch yng Nghymru, prifysgolion ac ysgolion (yn enwedig drwy raglen *Taith*) oll gyfleoedd i weithredu'n rhyngwladol, a gallant chwarae rhan er mwyn hyrwyddo heddwch.

Gallai cyfraniad anghymesur Cymru at y lluoedd arfog ynghyd â'r diwydiant amddiffyn a geir yma, ymddangos fel pe bai'n gwrthdaro â'r dyhead iddi fod yn Genedl Heddwch. Fodd bynnag, mae cenedloedd Ewropeaidd a gydnabyddir fel 'cenedloedd heddwch' (yn enwedig Norwy, Sweden a'r Swistir) yn cynnal lluoedd arfog a diwydiannau amddiffyn sylweddol, ac maen nhw i gyd yn gweithredu consgripsiwn gorfodol i bobl ifanc. Mae bod yn Genedl Heddwch felly'n awgrymu'r angen am berthynas amlhaenog, gymhleth â'r lluoedd arfog a'r diwydiant amddiffyn.

Mae datganoli yn rhoi pwerau sylweddol i Lywodraeth Cymru a all hybu heddwch cadarnhaol yng Nghymru a gosod esiampl yn rhyngwladol. Mae cyfresi o Lywodraethau Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth y gellir ei gweld fel sail i Gymru fel Cenedl Heddwch, tra yng nghyd-destun penderfyniad Llywodraeth y DG ar ôl Brexit i ddiddymu'r *Ddeddf Hawliau Dynol (1998)* a chyflwyno *Bil Hawliau yn 2022* i Senedd San Steffan, mae'r Senedd yng Nghymru wedi bod yn mynd ati'n rhagweithiol i archwilio dull cynnil Cymreig o amddiffyn a chynnal hawliau dynol i bawb sy'n byw yng Nghymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd bwerau sylweddol dros addysg sy'n creu cyfleoedd i ddatblygu heddwch cadarnhaol o fewn yr ysgolion, tra bo sefydliadau eraill yn cynnig cyfleoedd i wneud heddwch yn rhan o fywyd bob dydd yr ysgol. Mae Addysg Oedolion Cymru (AOC) yn cynnig cwrs Dysgu Byd-eang yn rhad ac am ddim i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru, ac wedi cydnabod pwysigrwydd rhaglenni addysg heddwch mewn addysg ôl-16. Er nad yw ymchwil mewn prifysgolion yn gyfrifoldeb datganoledig, a bod diffyg cymhellion i hyrwyddo ymchwil sy'n ymwneud â heddwch, ceir tystiolaeth bod ymchwil heddwch - o'i ddiffinio'n fras - yn bodoli ym Mhrifysgolion Cymru, a bod mecanweithiau i'w cael yng Nghymru a fyddai'n fodd i'w hyrwyddo'n fwy effeithiol.

Gan ddilyn esiampl saith Nod Llesiant Llywodraeth Cymru, gall chwe Nod Heddwch i Gymru greu'r fframwaith ar gyfer Manifesto Heddwch Cenedlaethol, a fyddai â sail ddeddfwriaethol debyg i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)*. Dyma'r chwe Nod:

- Perthynas dda â chymdogion.
- Llywodraethu da gan gynnwys lefelau isel o lygredd, gwybodaeth sy'n llifo'n rhydd a lefelau uchel o lythrennedd y cyfryngau.



- Cyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys dosbarthu adnoddau mewn modd teg a pharch tuag at hawliau dynol.
- Amgylchedd busnes cadarn a moesegol, gyda lefelau uchel o gyfalaf dynol.
- Hyrwyddo'r gwerthoedd diwylliannol hynny sy'n parchu gwahaniaeth ac yn hyrwyddo goddefgarwch.
- Diogelu'r amgylchedd naturiol.

Dylid datblygu manylion y rhain fel rhan o sgwrs genedlaethol a fydd yn arwain at Fanifesto Heddwch Cenedlaethol. Wrth ddatblygu hyn, gall Cymru arwain y byd.

## Argymhellion

1. Gall Cymru anelu at fod yn Genedl Heddwch, a dylai wneud hynny – er mwyn sefydlu ei hun fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, codi proffil Cymru yn rhyngwladol, adeiladu cymunedau cryfach oddi mewn i Gymru, ac yn syml oherwydd y gwerth cynhenid sydd gan heddwch.
2. Dylai Llywodraeth Cymru ymroi i hyrwyddo heddwch yn rhyngwladol drwy gefnogi datblygiad rhyngwladol; drwy ychwanegu ei llais at drafodaethau byd-eang ynghylch heddwch; drwy ddefnyddio addysg a diwylliant i agor sgysiau; a thrwy sefydlu partneriaethau rhyngwladol a nodweddir gan ddeialog a pharch.
3. Dylid cynnal deialog genedlaethol, wedi'i harwain gan y llywodraeth a chan gymdeithas sifil, ynghylch sut y gall Cymru ddatblygu fel Cenedl Heddwch, a chyfrannu at y weledigaeth o fyd gwell. Dylai hyn arwain at Fanifesto Cenedlaethol dros Heddwch, a ddylai fod yn seiliedig ar ddeddfwriaeth fel *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)*.
4. Yn sylfaen i'r sgwrs genedlaethol hon a pholisi Llywodraeth Cymru dylid cael fframwaith o chwe 'Nod Heddwch i Gymru':
  - i. Perthynas dda â chymdogion.
  - ii. Llywodraethu da gan gynnwys lefelau isel o lygredd, gwybodaeth sy'n llifo'n rhydd a lefelau uchel o lythrennedd y cyfryngau.
  - iii. Cyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys dosbarthu adnoddau mewn modd teg a pharch tuag at hawliau dynol.
  - iv. Amgylchedd busnes cadarn a moesegol, gyda lefelau uchel o gyfalaf dynol.
  - v. Hyrwyddo'r gwerthoedd diwylliannol hynny sy'n parchu gwahaniaeth ac yn hyrwyddo goddefgarwch.
  - vi. Diogelu'r amgylchedd naturiol.
5. Mae gan Gymru'r etifeddiaeth hanesyddol a diwylliannol i sefydlu ei hunaniaeth fel Cenedl Heddwch, ond mae angen atgyfnerthu hyn. Dylai sefydliadau cenedlaethol – fel yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol – wneud mwy i hyrwyddo'r etifeddiaeth hon, ac ar yr un pryd dylid annog dulliau arloesol o ddyfnhau hunaniaeth sy'n seiliedig ar heddwch.
6. Mae bod yn Genedl Heddwch yn golygu cynnal perthynas rhyngom â'n gilydd ac ag eraill yn seiliedig ar ddeialog a pharch. Ar gyfer hyn mae angen mynd ati fel cymdeithas gyfan i feithrin diwylliant sy'n pwysleisio partneriaeth yn hytrach na chystadleuaeth, ac sy'n anelu at gydweithredu ag eraill yn hytrach na gwrthdaro, waeth a yw'r bobl hynny o'r un meddylfryd ai peidio.
7. Ceir cyfleoedd penodol i Lywodraeth Cymru arwain gwaith i hyrwyddo diwylliant heddwch, yn enwedig o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dyma enghreifftiau posibl: mabwysiadu heddwch cadarnhaol fel thema drawsbynciol ar gyfer comisiynu gwasanaethau cyhoeddus a chyllid grant; cynnwys heddwch cadarnhaol yn benodol yn y saith Nod Llesiant ac yng nghylch gorchwyl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; a chynnwys hyrwyddo heddwch cadarnhaol yng nghylch gorchwyl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
8. Dylai Cymru hyrwyddo dealltwriaeth o heddwch drwy addysg ar wahanol gamau datblygu. Er mai Llywodraeth Cymru i raddau helaeth sy'n gyfrifol am hyn, gall cyrff eraill wneud cyfraniadau pwysig, a dylid hyrwyddo achrediad rhyngwladol drwy raglen UNESCO ASPNet yn fwy eang.
9. Er nad yw ymchwil prifysgolion wedi'i datganoli i Gymru, dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall hyrwyddo ac amlygu ymchwil heddwch yng Nghymru.
10. Nid yw gweithgareddau rhyngwladol Cymru wedi'u cyfyngu i'r Llywodraeth yng Nghaerdydd. Dylai sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru, y mae rhai ohonynt yn rhan o gynghreiriau rhyngwladol ehangach, barhau i wneud cyfraniadau sylweddol at heddwch, drwy eu geiriau a'u gweithredoedd.
11. Dylai Cymru ddechrau sgwrs a gofyn: sut y gallwn daro cydbwysedd rhwng ein huchelgeisiau fel cenedl flaengar sy'n hyrwyddo heddwch â'n hymrwymiad i ddiogelu'r DG? Sut y mae buddion economaidd y diwydiant amddiffyn yn cefnogi llesiant cymunedau yng Nghymru ond lle telir y pris am hyn mewn manau eraill? A beth y mae 'amddiffyn' a 'diogelwch' yn ei olygu i bobl Cymru? Dylid cynnal ymchwil ychwanegol i gefnogi'r ymholi hwn.

## Ynghylch Academi Heddwch Cymru

Academi Heddwch Cymru yw sefydliad heddwch cenedlaethol Cymru, a'r sefydliad cyntaf o'i fath ym mhedair cenedl y Deyrnas Gyfunol. Mae'n perthyn i deulu byd-eang o sefydliadau heddwch sy'n tynnu ynghyd arbenigedd gan anelu at yr un nod o ymateb i heriau byd-eang drwy ddulliau sy wedi'u gwreiddio mewn heddwch.

Nod Academi Heddwch yw parhau â thraddodiad hirsefydlog Cymru o greu heddwch a hyrwyddo heddwch drwy ddatblygu a chydlynu cymuned annibynnol o ymchwilwyr mewn meysydd cysylltiedig. Er mai sefydliad annibynnol ydyw, cyllidir Academi Heddwch gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio er mwyn gosod heddwch yn gadarn ar agenda genedlaethol Cymru, yn ogystal ag ar y llwyfan ryngwladol.

Nodau Academi Heddwch yw sicrhau:

- Bod Cymru yn gwneud cyfraniad a gydnabyddir yn rhyngwladol at ymchwil ac arfer heddwch.
- Bod ffocws ar heddwch i'w weld ym mholisiau a strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.
- Bod y cyhoedd yn chwarae rhan fawr mewn ymchwil ac arfer heddwch yng Nghymru.

Sefydlwyd Academi Heddwch yn 2020. Cynghrair ydyw o'r 9 Prifysgol yng Nghymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Fe'i cefnogir hefyd gan gynrychiolwyr o'r mudiad heddwch yng Nghymru, Race Council Cymru, Urdd Gobaith Cymru, y Rotari Rhyngwladol, a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

## Y Cefndir

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Academi Heddwch Cymru. Hoffai Academi Heddwch Cymru gydnabod yn ddiolchgar gefnogaeth Llywodraeth Cymru a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru er mwyn llunio'r adroddiad hwn.

Cynhaliwyd ymchwil gefndirol ar gyfer yr adroddiad hwn gan Richard Newton Consulting, gyda mewnbwn ychwanegol gan staff Academi Heddwch Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu ar y gynhadledd a drefnwyd gan Academi Heddwch Cymru a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru ar 'Safbwyntiau a Dysgu Newydd ar Natur Heddwch' ym mis Mai 2023,<sup>1</sup> a'r adroddiad gan Sefydliad Heddwch Fflandrys, *Peace in Foreign Policy: Peace Nations in Times of Crisis*.<sup>2</sup> Rydym yn ddiolchgar i'n cydweithwyr yn Sefydliad Heddwch Fflandrys am drafod y materion hyn â ni.

Prif awdur yr adroddiad oedd Colin McInnes, Arweinydd Rhwydwaith Ymchwil Academi Heddwch Cymru. Cafwyd cymorth a deunydd ychwanegol gan Jill Evans, Mererid Hopwood, Bethan Siân Jones, Hayley Richards a Rowan Williams.

<sup>1</sup> Gweler <https://www.wcia.org.uk/cy/academi-heddwch-cymru-cy/new-perspectives-learning-on-the-nature-of-peace/>

<sup>2</sup> Merel Selleslach & Maarten Van Alstein, *Peace in Foreign Policy: Peace Nations in Times of Crisis* (Brwsel: Sefydliad Heddwch Fflandrys, 2024).

## Cyflwyniad

Mae heddwch o bwys i Gymru. Mae Strategaeth Ryngwladol gyfredol Llywodraeth Cymru yn sôn yn benodol am Gymru yn sefydlu ei hun fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang,<sup>3</sup> ac ni all yr un weithred gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw yn fwy na hyrwyddo heddwch. Mae'r Strategaeth Ryngwladol hefyd yn datgan bod codi proffil rhyngwladol Cymru yn uchelgais allweddol. Credwn y bydd dod yn Genedl Heddwch yn gwella ein proffil rhyngwladol yn sylweddol, yn yr un modd â 'chenhedloedd heddwch' eraill yn Ewrop, fel Norwy, Sweden a'r Swistir, ac y bydd yn rhoi hunaniaeth unigryw i Gymru ar y llwyfan ryngwladol. Mae bod yn Genedl Heddwch yn golygu pwysleisio cydweithredu dros wrthdaro a phartneriaeth dros gystadleuaeth, nid yn unig yn rhyngwladol ond o fewn ein gwlad ein hunain. Bydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y modd rydym yn ein llywodraethu ein hunain fel cenedl ddatganoledig gyda'n cymunedau a'n buddiannau amrywiol. Ond efallai yn anad dim, dylai Cymru fel cenedl a'i Llywodraeth hyrwyddo heddwch gan fod gwerth i hynny ynddo'i hun.

Mae'r angen am heddwch yr un mor enbyd heddiw ag erioed o'r blaen gyda rhyfeloedd, gan gynnwys Gaza, Myanmar, De Sudan ac Wcráin, yn amlhau ar draws y byd. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan y sefydliad y Cenedloedd Unedig yn ei friff polisi yn 2023, *Agenda Newydd ar gyfer Heddwch*.<sup>4</sup> Er ei bod yn genedl fach, ac yn genedl heb bwerau wedi'u dirprwyo'n llawn iddi, ceir cyfleoedd gwirioneddol i Gymru weithredu fel arweinydd byd-eang i hyrwyddo heddwch ledled y byd, a byddwn yn archwilio hynny yn yr adroddiad hwn.

Mae gan Gymru hanes hir o godi cwestiynau ynghylch arfau a rhyfel – nid lleiaf o gyfnod Apêl Heddwch y Menywod yn 1923 hyd at bleidlais y Senedd yn 2023 ynghylch y rhyfel yn Gaza. Er mai bwerau wedi'u cadw'n ôl i Lywodraeth y DG yw polisi tramor, masnach ryngwladol ac amddiffyn, mae gan Lywodraeth Cymru a chymdeithas sifil leisiau pwysig a all gyfrannu at, a helpu i lywio barn y DG a'r farn ryngwladol. Mae Cymru hefyd wedi dangos – yn y gorffennol ac yn fwy diweddar – ei bod yn gallu gweithredu mewn modd arloesol i hyrwyddo heddwch, er enghraifft drwy Gynllun y Genedl Noddfa.<sup>5</sup>

Mae heddwch, fodd bynnag, yn golygu mwy nag absenoldeb rhyfel (y math o heddwch a elwir weithiau'n 'heddwch negyddol'). Mae'n golygu bod cymdeithasau'n byw heb ofn, yn golygu gwytnwch cymdeithasol ochr yn ochr â hawliau unigol, ac yn golygu cyfiawnder cymdeithasol, tegwch, parch a chydaddoldeb er mwyn adeiladu byd gwell. Mae'n golygu newid ein ffrâm gyfeirio o ddiogelwch cenedlaethol a buddiannau'r wladwriaeth tuag at ddiogelwch dynol - rhyddid rhag ofn a rhyddid rhag eisiau ymhlith cymunedau ac unigolion. Dyma'r hyn a elwir yn 'heddwch cadarnhaol' (am enghraifft o'r hyn y gallai heddwch cadarnhaol ei olygu yn ymarferol, gweler Ffigur 1).

Ers datganoli, mae ein gallu i hyrwyddo heddwch cadarnhaol yng Nghymru wedi cynyddu. Mae'r dyhead i wneud Cymru'n Genedl Heddwch yn gyson â blaenoriaethau cyfredol Llywodraeth Cymru a *Rhaglen Lywodraethu 2021–26*.<sup>6</sup> Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd sylweddol y mae Cymru wedi'i wneud, ond hefyd yn dadlau y gellid gwneud mwy i hyrwyddo heddwch cadarnhaol, ac i ennill cydnabyddiaeth fyd-eang i Gymru fel Cenedl Heddwch.

Dengys ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn fod sylfaen gref eisoes yn bodoli i Gymru ddod yn Genedl Heddwch drwy'r waddol a etifeddwyd gan bobl Cymru,

a thrwy ddeddfwriaeth ddiweddar fel *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)*.<sup>7</sup> Mae'r cysylltiadau cryf rhwng heddwch cadarnhaol a llesiant yn golygu bod rhai o'r Nodau Llesiant a sefydlwyd yn y Ddeddf hefyd yn rhoi sylfaen gadarn i Gymru symud ymlaen ar lwybr heddwch cadarnhaol, yn enwedig y Nodau canlynol:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Fodd bynnag, mae heddwch yn golygu mwy na chyflawni'r Nodau Llesiant, felly nod yr adroddiad hwn yw hwyluso deialog genedlaethol, a arweinir gan lywodraeth a chymdeithas sifil, ynghylch sut y gall Cymru ddatblygu fel Cenedl Heddwch a chyfrannu at y weledigaeth o fyd gwell.

**Ffigur 1:** Conglfeini Heddwch Cadarnhaol - fel y darluniwyd gan y Sefydliad Economeg a Heddwch sef yr Insitute of Economics and Peace.<sup>8</sup>



<sup>3</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/strategaeth-ryngwladol-i-gymru-v1.pdf> t.4

<sup>4</sup> Gweler <https://www.un.org/sites/un2.un.org/files/our-common-agenda-policy-brief-new-agenda-for-peace-en.pdf>

<sup>5</sup> Gweler [https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches\\_1.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_1.pdf)

<sup>6</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026.html>

<sup>7</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru>

<sup>8</sup> Gweler <https://www.economicsandpeace.org/wp-content/uploads/2023/09/PPR-2022-web.pdf>

## Cenedloedd Heddwch

Yn fyd-eang, mae sawl gwladwriaeth wedi gwneud penderfyniadau bwriadol i osod heddwch yn gadarn ar eu hagendâu cenedlaethol, gan wneud heddwch yn rhan o'u hunaniaeth genedlaethol ac yn werth allweddol y cânt eu cydnabod amdano. Yn Ewrop, ystyrir bod Norwy, Sweden a'r Swistir oll yn 'genhedloedd heddwch', ac ymhellach o Gymru diddymodd Costa Rica ei lluoedd arfog ar ôl rhyfel cartref ac ailddyrranu ei chyllideb amddiffyn i feysydd eraill, gan gynnwys addysg a diwylliant, gan ddod i gael ei hadnabod fel 'cenedl heddwch'.

Anaml y bydd y cenedloedd hyn yn diffinio 'heddwch' y tu hwnt i dderbyn yn gyffredinol na ddylid rhyfela ac y dylid hyrwyddo dulliau di-drais o ddatrys anghydfod - er nad yw hyn yn atal rhai cenedloedd heddwch, fel Norwy a Sweden, rhag bod yn aelodau o gynghreiriau milwrol.

Yr hyn sy'n hollbwysig, fodd bynnag, yw bod heddwch yn y gwladwriaethau hyn yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n esblygu'n rhan o ddeialog genedlaethol, gan dderbyn dulliau amrywiol mewn modd cynhwysol. Wrth ddisgrifio cenedloedd heddwch yn Ewrop, nodir yn adroddiad Sefydliad Heddwch Fflandrys:

[w]hile defending certain norms and values is important, dialogue and reciprocity are also essential factors in building peaceful relations between people and countries. Peacefulness and reciprocity are characteristic of the kinds of relationships and the quality of the relationships a country develops within the frame of peace-oriented foreign policy. Peace, then, is not only a value to be promoted; it is also a relationship. In that sense, states actively practice peace by developing peaceful relations with partners, be they like-minded or not.<sup>9</sup>

Nid polisi yn unig yw heddwch felly, ond rhan o hunaniaeth gwladwriaeth a 'pherthynas i'w meithrin'.<sup>10</sup> Serch hynny, nodwyd sawl offeryn polisi sy'n gyffredin rhwng y gwladwriaethau hyn wrth iddynt hyrwyddo heddwch. Dyma nhw:

1. cymryd rhan mewn gwaith rhyngwladol i gyfryngu heddwch
2. cydweithredu mewn cynlluniau datblygu rhyngwladol a chefnogi'r cynlluniau hynny
3. hyrwyddo bod yn amlochrog, a hyrwyddo trefn rhyngwladol sy'n seiliedig ar reolau
4. mesurau rheoli ar gyfer allforio arfau, a
5. chynnal gweithgareddau diwylliannol ac addysgol.<sup>11</sup>

Ni chaiff y polisiâu hyn eu cyfleu mewn modd unffurf. Bydd hynny'n amrywio dros amser ac yn ôl y cyd-destun cenedlaethol. Ar ben hynny, nid ydynt bob amser yn syml i'w gweithredu - mae gan Norwy a Sweden, er enghraifft, ddiwydiannau arfau sylweddol ac mae'r diwydiant allforio arfau yn rhywbeth sy'n cael ei reoli yn hytrach na'i wahardd. Serch hynny, mae'r pum offeryn yn pennu cyfeiriad nodedig o ran polisi ac yn adlewyrchu'r modd y caiff y gwerthoedd a fynegir gan y gwladwriaethau hyn eu trosi'n ganlyniadau polisi pendant.

Yn ogystal â chenhedloedd heddwch, mae grwpiau is-wladwriaethol wedi mynd ati'n fwriadol i fabwysiadu heddwch fel rhan o'u hunaniaeth; gan lywio nid yn unig eu gwerthoedd ond y polisiâu y maent yn eu gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys rhanbarthau â graddau amrywiol o hunanlywodraeth ac yn cynnwys 'Meiri dros Heddwch' sy'n cynrychioli bron 8,400 o ddinasoedd.<sup>12</sup> Er mai pwerau ffurfiol cyfyngedig iawn sydd gan y grwpiau is-wladwriaethol hyn yn aml, o ran polisi tramor ac amddiffyn, fe allant, ac y maent yn cymryd rhan, mewn gweithgareddau i hyrwyddo heddwch rhyngwladol drwy'r hyn a elwir yn 'bara-ddiplomyddiaeth' (gweler Ffigur 2). Gall hyn gynnwys gweithgareddau addysgol a diwylliannol yn ogystal â datganiadau sy'n condemnio trais, ac mae hyn sy'n cyfrannu at 'lais byd-eang'. Gan fod heddwch i'w dinasoedd a'u rhanbarthau yn golygu mwy nag absenoldeb rhyfel, gall y polisiâu y maent yn gallu eu gweithredu gael eu llywio'n sylweddol gan syniadau ynghylch heddwch cadarnhaol. Gall y rhain gynnwys arferion amgylcheddol, hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, annog rhyddid mynegiant, a hyrwyddo cynhwysiant.

### Bocs 1: Para-ddiplomyddiaeth

Daeth para-ddiplomyddiaeth i'r amlwg fel syniad yng nghanol y 1980au i ddisgrifio rôl gynyddol llywodraethau datganoledig ar y llwyfan ryngwladol. Arweiniodd y twf mewn ffederaliaeth yn enwedig at niferoedd cynyddol o lywodraethau rhanbarthol, yr oedd llawer ohonynt heb rolau ffurfiol ym maes polisi tramor nac amddiffyn, ond yr oedd eu presenoldeb rhyngwladol serch hynny yn tyfu. Mae gweithredwyr anwladwriaethol, gan gynnwys rhanbarthau a dinasoedd pwysig, bellach yn cael eu cydnabod yn eang fel gweithredwyr ar y llwyfan ryngwladol, er nad oes ganddynt statws cyfreithiol fel sy gan gwladwriaethau.

Ffynhonnell: Mariano Alvarez 'The Rise of Paradiplomacy in International Relations', *E-International Relations* <https://www.e-ir.info/2020/03/17/the-rise-of-paradiplomacy-in-international-relations/>

<sup>9</sup> Sellerlach & Van Alstein, t. 26.

<sup>10</sup> Sellerlach & Van Alstein, t.31.

<sup>11</sup> Sellerlach & Van Alstein, t.7.

<sup>12</sup> Gweler <https://www.mayorsforpeace.org/en/> a sylwch, yng Nghymru, fod Aberystwyth, Y Bala, Caerffili, Caerdydd, Gwynedd, Casnewydd, Llanellwyr a Chaerfyrddin oll yn aelodau o'r 'Meiri dros Heddwch'.



## Traddodiad Heddwch yng Nghymru

Mae hanes a diwylliant yn seiliau hanfodol wrth adeiladu hunaniaeth cenedl, ac mae deall cyfraniad hyn at fod yn Genedl Heddwch yn hollbwysig. Mae sefydlu a hyrwyddo'r traddodiad o greu heddwch yng Nghymru yn bwysig felly, nid yn unig i ddathlu'r cyfraniad cenedlaethol nodedig i les byd-eang, ond o ran sefydlu hunaniaeth Cymru fel Cenedl Heddwch.

Ers dros ganrif, mae pobl Cymru wedi cynnal mentrau arloesol i hyrwyddo heddwch, gan arwain y byd ar adegau. Mae llawer o'r rhain, ond nid pob un ohonynt, wedi deillio o weithredoedd unigolion neu grwpiau cymdeithas sifil. I raddau helaeth, ceir y ffocws hwn ar gymdeithas sifil oherwydd y pwerau cyfyngedig a oedd ar gael i lywodraethau Cymru (lleol a chenedlaethol) cyn datganoli. Yn sgil pwerau newydd y llywodraeth genedlaethol oherwydd datganoli, mae'r posibilrwydd i arloesi ymhellach ac i ffurfio hunaniaeth gliriach fel Cenedl Heddwch wedi cynyddu'n aruthrol.

Dyma enghreifftiau o'r etifeddiaeth o hyrwyddo heddwch yng Nghymru:

1. Sefydlu'r Gadair gyntaf mewn gwleidyddiaeth ryngwladol yn unrhyw le yn y byd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1919, er mwyn helpu i atal rhyfeloedd yn y dyfodol.
2. Neges heddwch ac ewyllys da i'r byd gan blant Cymru yn 1922, sy'n parhau hyd heddiw drwy neges flynyddol Urdd Gobaith Cymru.
3. Apêl Heddwch Menywod Cymru 1923 i fenywod Unol Daleithiau America, wedi'i llofnodi gan 390,296 o fenywod o bob rhan o Gymru (traean o'r boblogaeth o fenywod yng Nghymru ar y pryd).
4. Ym 1926 cyfarfu Ffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Cynghrair y Cenhedloedd - 'trydedd fraich' y Cynghrair - yn Aberystwyth, lle daeth cynrychiolwyr o 40 o genhedloedd ynghyd i weithio tuag at y nod o heddwch byd-eang.
5. Agor y Deml Heddwch ac lechyd yn 1938 yn Cathays, Caerdydd.
6. O dan Gyfarwyddiaeth y Parch Gwilym Davies, datblygodd Cymdeithas Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang Cymru (sef y Welsh Committee for Education in World Citizenship) gyfansoddiad drafft ar gyfer yr hyn a fyddai'n datblygu i fod yn UNESCO, sy'n anelu at greu heddwch drwy addysg, gwyddoniaeth a diwylliant.
7. Yr ymgyrch ym 1946-48 yn erbyn cynigion i ddatblygu mynyddoedd y Preseli yn faes hyfforddi milwrol parhaol.
8. Yr orymdaith yn erbyn arfau niwclear gan fenywod o Gaerdydd i Berkshire, a arweiniodd at sefydlu Gwersyll Heddwch y Menywod ar Gomin Greenham yn 1981.
9. Gwrthodiad Cynghorau Sir Cymru yn fuan yn y 1980au i gymryd rhan yng nghyfarwyddyd Llywodraeth y DG i ddatblygu cynlluniau amddiffyn sifil, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer rhyfel niwclear posibl, ac yn 1982 gwnaeth 'Datganiad Clwyd', y 'Datganiad Cymru Ddi-niwclear', ddynodi Cymru yn genedl ddi-niwclear - y gyntaf o blith holl wledydd Gorllewin Ewrop.

10. Ymgyrchoedd amlwg gan y mudiad heddwch yng Nghymru dros y 4 degawd diwethaf, sydd wedi canolbwyntio ar achosion gwrth-niwclear a gwrth-ryfel, yn aml yn gweithredu ar y cyd drwy rwydweithiau fel Cymdeithas y Cymod, CND Cymru, adain Gymreig Undeb y Llw Heddwch, a rhwydweithiau sy'n seiliedig ar ffydd, gan gynnwys Cytûn a Chrynwyr Cymru.

11. Heddwch ar Waith, a sefydlwyd yn 2023 wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree i ddarparu fforwm ar gyfer yr ymgyrch heddwch.

Ymhlith yr unigolion sydd wedi ymwneud â hyrwyddo heddwch, mae Annie Hughes Griffiths, cadeirydd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru, a gyflwynodd Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru i UDA; David Davies o Landinam, a waddolodd Gadair Wilson ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Deml Heddwch ac lechyd yng Nghaerdydd; Henry Richard a'i wasanaeth 40 mlynedd o hyd fel Ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch (1848-1884). O ganlyniad i'w waith ar y llwyfan fyd-eang yn hyrwyddo cyflafareddu rhwng cenhedloedd rhoddwyd iddo'r teitl 'Apostol Heddwch'; Richard Roberts, cyd-sylfaenydd y mudiad rhyngwladol, Cymdeithas y Cymod; George M Ll Davies a oedd â chysylltiad agos ag Undeb y Llw Heddwch; a'r menywod a arweiniodd yr orymdaith yn erbyn arfau niwclear o Gaerdydd i safle'r Awyrlu Brenhinol ar Gomin Greenham. Mae hyrwyddo heddwch hefyd yn nodwedd amlwg yn niwylliant Cymru, o waith llenorion a beirdd fel TH Parry-Williams, Gwenallt, Waldo Williams a Menna Elfyn, i Gleddyf Heddwch seremonïau'r Orsedd a Neges Heddwch Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.

Mae gan Gymru felly yr etifeddiaeth hanesyddol a diwylliannol i sefydlu ei hunaniaeth fel Cenedl Heddwch.



## Cymru a Heddwch Rhyngwladol

Er gwaethaf caniatáu pwerau datganoledig mewn ystod o feysydd polisi pwysig, ymddengys i ddechrau mai ychydig o ffyrdd os o gwbl, sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i hyrwyddo heddwch yn rhyngwladol - ceir cysylltiad annatod rhyngddi â Llywodraeth y DG, sydd wedi cadw'r pwerau sy'n gysylltiedig â pholisi tramor, amddiffyn, diogelwch a datblygiad rhyngwladol. Fodd bynnag, mae lle i Lywodraeth Cymru weithredu'n rhyngwladol, yn enwedig yng nghydestun y pwerau sydd ganddi dros addysg a diwylliant, y gellir defnyddio'r naill a'r llall i sefydlu deialogau a hyrwyddo heddwch. Gall Llywodraeth Cymru hefyd ychwanegu ei llais at drafodaethau byd-eang, fel y gwnaeth ym mhleidlais y Senedd yn 2023 ynghylch y rhyfel yn Gaza (gweler boc 2). Y mae hefyd wedi rhoi cymorth ymarferol ar gyfer datblygiad rhyngwladol, fel rhaglen 'Cymru ac Affrica',<sup>13</sup> tra bo'i *Chynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches 2019*,<sup>14</sup> sy'n anelu at sefydlu Cymru fel y 'Genedl Noddfa' gyntaf, yn dangos sut y gellir creu cyfleoedd i weithredu'n rhyngwladol drwy feddwl yn arloesol.

### Bocs 2: Pleidlais y Senedd ar Ryfel Gaza

Enghraifft ddiweddar o gymhlethdod y berthynas rhwng pwerau a ddatganolir i Gymru ac a gedwir yn ôl gan Lywodraeth San Steffan oedd pleidlais Senedd Cymru ynghylch galw am gadoediad ar unwaith yn Gaza (8 Tachwedd 2023). Er i Lafur, y blaid sydd mewn grym, roi pleidlais rydd i'w haelodau ar y seddau cefn, peidiodd Gweinidogion Cymru â phleidleisio. Roedd hyn i'w ddisgwyl gan fod Gweinidogion Cymru fel rheol yn ymatal rhag pleidleisio mewn materion lle mae pwerau wedi'u cadw'n ôl. Cariwyd y bleidlais heb gefnogaeth y Gweinidogion, ac er ei bod yn annhebygol o greu newid uniongyrchol i'r sefyllfa leol yn Gaza, mae'n dangos gallu Cymru i gyfleu negeseuon diplomyddol ynghylch heddwch rhyngwladol.

Nid yw hyn yn golygu ein bod wedi achub ar bob cyfle – er enghraifft, mae rhaglen *Taith* Llywodraeth Cymru yn galluogi cynlluniau cyfnewid addysgol i fyfyrwyr a staff, ond nid yw'n pwysleisio'r angen i hyrwyddo heddwch. Er bod rhai o'r prosiectau a gyllidwyd ganddi wedi llwyddo i hyrwyddo heddwch yn rhan o'i gweithgareddau, nid oedd hyn wedi'i nodi fel cenhadaeth na blaenoriaeth ar gyfer *Taith*.<sup>15</sup> Mewn cyferbyniad â hynny, mae rhaglen Erasmus+ yr UE, yr oedd y DG yn rhan ohoni cyn Brexit ac y bwriedir i *Taith* ei disodli, yn cynnwys nod clir i gefnogi hawliau cymdeithasol, a gallai felly gael ei hystyried yn rhaglen sy'n hyrwyddo heddwch cadarnhaol.<sup>16</sup>

Yn bwysig, nid yw gweithgareddau rhyngwladol Cymru wedi'u cyfyngu i'r Llywodraeth yng Nghaerdydd. Mae sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru, y mae rhai ohonynt yn rhan o gynghreiriau rhyngwladol ehangach, yn gwneud cyfraniadau sylweddol at heddwch, drwy eu geiriau a'u gweithredoedd.

<sup>13</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/cymru-ac-affrica>

<sup>14</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/cynllun-ffoaduriaid-cheiswyr-lloches-cenedl-noddfa>

<sup>15</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/taith-y-rhaglen-gyfnewid-ryngwladol-ar-gyfer-dysgu>

<sup>16</sup> Gweler <https://erasmus-plus.ec.europa.eu/about-erasmus/what-is-erasmus>

Mae a wnelo enghraifft gyfredol o hyn â lleoli radar gofod pell yn Sir Benfro. Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DG ei bwriad i adeiladu cyfleuster radar newydd ym Marics Cawdor ger Tŷ Ddewi yn rhan o raglen DARC AUKUS.<sup>17</sup> Drwy'r rhaglen y bwriad yw olrhain gwrthrychau yn y gofod, 'gan ganfod bygythiadau posibl i systemau amddiffyn neu sifil yn y gofod'.<sup>18</sup> Mae pryderon ynghylch yr effaith leol, yn ogystal â milwreiddio'r gofod wedi arwain at sefydlu grŵp cymdeithas sifil gweithgar, PARC against DARC, sef Ymgyrch Sir Benfro yn Erbyn y Radar (Pembrokeshire Against the Radar Campaign: PARC) yn erbyn Galluogrwydd Radar Uwch y Gofod Pell, (Deep Space Advanced Radar Capability: DARC)<sup>19</sup> - tra bo'r llywodraeth leol hefyd yn ystyried a ddylid rhoi caniatâd cynllunio (er y gallai Llywodraeth y DG ddiystyru penderfyniadau cynllunio lleol am resymau'n ymwneud â diogelwch cenedlaethol).

Mae rhaglen DARC yn codi'r mater mwy cyffredinol sy'n gysylltiedig â chanolfannau milwrol yng Nghymru. Yn yr ymchwil gefndirol a gyflawnwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, canfuwyd bod Cymru yn cyfrannu 9% at weithwyr lluoedd y DG, er nad yw hi ond yn cynnwys 5% o boblogaeth y DG, ac er mai ond 2% o weithwyr y lluoedd arfog sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, mae dros 60 o ganolfannau a sefydliadau milwrol eraill wedi'u lleoli yng Nghymru (am restr o ganolfannau a sefydliadau milwrol eraill yng Nghymru, gweler Atodiad 2). Ymddengys nad yw hyn yn gydnaws â'r uchelgais i fod yn Genedl Heddwch.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi'n helaeth mewn galluogrwydd milwrol drwy ei strategaeth masnach a buddsoddi. Mae gweithgynhyrchu gwerth uchel (gan gynnwys awyrofod) a seiberddiogelwch ymhlith y sectorau a flaenoriethir, sectorau sy'n cyfrannu at y diwydiant amddiffyn yng Nghymru.<sup>20</sup> Amcangyfrifir bod dros 160 o gwmnïau yn cyflogi dros 20,000 o bobl mewn gweithgareddau amrywiol, yn darparu seilwaith ar gyfer datblygu arfau, ymchwil a chynhyrchu.<sup>21</sup> Mae talent leol, ardaloedd menter a chymhellion ariannol hael i gefnogi cwmnïau i leoli ac ehangu eu gweithrediadau yng Nghymru wedi annog busnesau uchel eu proffil i weithredu oddi mewn i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys: BAE Systems, GE Aviation, Rolls Royce, General Dynamics, Raytheon, Qioptiq ac Airbus Group. Ar ben hynny, nodwyd bod gwariant canolog y Weinyddiaeth Amddiffyn yn anghymesur o uchel yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill y DG o'i ddadansoddi fesul pen.<sup>22</sup> Mae'r buddion economaidd hyn yn sylweddol, a gallant wneud cyfraniad pwysig at lesiant cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn benodol yn coffáu 'traddodiad a hanes milwrol balch' Cymru ei hun,<sup>23</sup> ac yn ariannu digwyddiadau ac arddangosfeydd coffadwriaeth. Er y gall gweithgareddau fel Sul y Cofio blynyddol fod yn bwysig i'n hatgoffa o gost rhyfel, gan bwysleisio'r angen am heddwch, gellid dadlau y gallent hefyd gael eu gweld fel digwyddiadau sy'n mawrygu aberth mewn rhyfel.

Ystyriaeth ychwanegol ynglŷn â phresenoldeb y lluoedd arfog yng Nghymru yw bod nifer o gyn-filwyr yn byw yma, y mae rhai ohonynt wedi aberthu llawer er mwyn y wlad. O'u safbwynt hwy, gallai'r weithred o dynnu buddsoddiad yn ôl o'r fyddin fod yn gyfystyr â throi cefn arnynt.

Mae Cymru'n gwneud cyfraniad anghymesur at luoedd arfog y DG a'i sylfaen ddiwydiannol o ran amddiffyn, a gallai hynny ymddangos fel pe bai'n gwrthdaro â'r dyhead iddi fod yn Genedl Heddwch. Mewn cyferbyniad â hynny, gellid ystyried bod Costa Rica yn sefydlu cynsail bwysig fel gwladwriaeth a wnaeth ddiosg ei lluoedd arfog ac a fuddsoddodd yr arbedion mewn meysydd eraill

gan gynnwys addysg a diwylliant. Ar y llaw arall, mae'r cenhedloedd Ewropeaidd hynny sy'n cael eu cydnabod fel 'cenhedloedd heddwch' (yn enwedig Norwy, Sweden a'r Swistir) yn cynnal lluoedd arfog a diwydiannau amddiffyn sylweddol, ac oll yn gweithredu consgripsiwn gorfodol i bobl ifanc. Yn wir, yn yr ymchwil gefndirol a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn, a gynhaliwyd gan Richard Newton Consulting, dadleuwyd y byddai'n heriol rhagweld senario lle byddai swyddi Lluoedd Arfog Prydain yn cael eu symud i'r gwasanaethau cyhoeddus.<sup>24</sup>

Mae bod yn Genedl Heddwch felly'n awgrymu'r angen am berthynas gymhleth ac amlhaenog â'r lluoedd arfog a'r diwydiant amddiffyn. Mae'n ymddangos yn annhebygol – yn enwedig o ystyried natur y setliad datganoli - y gall Cymru wro buddsoddiad oddi wrth y naill a'r llall (y lluoedd arfog a'r diwydiant amddiffyn) yn y tymor byr, ac efallai na fydd angen gwneud hynny i fod yn Genedl Heddwch o ystyried yr enghreifftiau yn rhannau eraill o Ewrop. Yn lle hynny, mae angen cynnal sgwrs ynghylch sut y gall Cymru daro cydbwysedd rhwng ei dyheadau fel cenedl flaengar sy'n hyrwyddo heddwch a'i hymrwymiad i sicrhau diogelwch y DG, a thuag at gyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru, a'r modd y mae buddion economaidd y diwydiant amddiffyn yn cynnal llesiant mewn cymunedau yng Nghymru, er y telir y pris am hyn mewn manau eraill.

## Heddwch Cadarnhaol yng Nghymru

Er bod polisi tramor a diogelwch yn parhau i fod yn bwerau sy wedi'u cadw'n ôl yn Llywodraeth San Steffan, mae gan Gymru bellach bwerau sylweddol mewn meysydd eraill a all hyrwyddo heddwch cadarnhaol yng Nghymru a gosod esiampl yn rhyngwladol. Yn y cyd-destun hwn, mae cyfres o Lywodraethau Cymru wedi cyflwyno'r hyn y gellir ei ystyried fel deddfwriaeth sy'n creu'r sail ar gyfer Cymru fel Cenedl Heddwch. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)*<sup>25</sup> sy'n sefydlu saith 'nod llesiant' a phum 'ffordd o weithio' sy'n berthnasol i 48 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae egwyddor datblygu cynaliadwy yn tanategu'r rhain, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a'i swyddfa, yn eu goruchwyllo. Er nad yw'r Nodau Llesiant na'r Pum Ffordd o Weithio yn cyfeirio'n benodol at heddwch, ceir gorgyffwrdd clir rhwng yr amcanion hyn a'r cysyniad o 'heddwch cadarnhaol'.
2. Mae *Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023 (Cymru)*<sup>26</sup> yn mynd i'r afael â gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a llesiant yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn disgwyl i wasanaethau cyhoeddus gael eu cynnal a'u talu amdanynt mewn modd cyfrifol, a bod gwasanaethau yn gwella bywydau pobl. Mae'n ei gwneud yn ofynnol comisiynu gwasanaethau cyhoeddus mewn modd teg, gan roi ystyriaeth i effeithiau hirdymor penderfyniadau ar lesiant pobl. Bwriedir i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fod yn gysylltiedig â gwaith cynllunio'r Nodau Llesiant, gan sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn rhoi tystiolaeth i ddangos bod darparwyr yn gweithredu mewn modd cyfrifol ac yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru.
3. Deg Amcan Llesiant Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 a oedd yn gosod gofynion ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni yn erbyn y Nodau Llesiant trosfwaol, gan weithio ochr yn ochr â'r Nodau i wella profiad byw pobl o ddod yn iach ac o gadw'n iach.<sup>27</sup>

Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cymru yn datgan yn glir bod 'hawliau dynol yn gyffredinol yn ogystal â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) [yn arbennig] wedi bod yn greiddiol i ddatganoli yng Nghymru'.<sup>28</sup> Yng nghyd-destun penderfyniad Llywodraeth y DG i ddiddymu'r *Ddeddf Hawliau Dynol (1998)* yn dilyn Brexit,<sup>29</sup> a chyflwyno'r Bil Hawliau i Lywodraeth y DG,<sup>30</sup> mae Senedd Cymru wedi bod yn mynd ati'n rhagweithiol i archwilio dull sy'n benodol Gymreig o ddiogelu a chynnal hawliau dynol pawb

<sup>17</sup> Gweler <https://www.gov.uk/government/news/new-deep-space-radar-will-transform-uk-security>. AUKUS yw'r bartneriaeth diogelwch deirochrog rhwng Awstralia, y DG ac UDA, sydd â ffocws arbennig ar ranbarth India-Pacistan. DARC yw galluogrwydd Radar Uwch y Gofod Pell a gaiff ei osod ar draws 3 safle, a bydd y cyntaf ohonynt (yn Awstralia) yn weithredol yn 2026.

<sup>18</sup> *ibid.*.

<sup>19</sup> Gweler <https://parcagainstdarc.com/>

<sup>20</sup> Gweler <https://tradeandinvest.wales/key-sectors>

<sup>21</sup> Gweler <https://www.aerospacewalesforum.com/defence>

<sup>22</sup> Gweler <https://publications.parliament.uk/pa/cm201919/cmselect/cmwelaf/128/128.pdf>

<sup>23</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/croeso-i-gymru.pdf>

<sup>24</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mawrth-2024>

<sup>25</sup> Gweler <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

<sup>26</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/deddf-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru>

<sup>27</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/rhaglen-lywodraethu-diweiddariad-rhagfyr-2021.pdf>

<sup>28</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/diwygio%E2%80%99r-ddeddf-hawliau-dynol-mesur-hawliau-modern.pdf>

<sup>29</sup> Gweler <https://www.equalityhumanrights.com/cy/human-rights/y-ddeddf-hawliau-dynol>

<sup>30</sup> Gweler <https://www.gov.uk/government/publications/bill-of-rights-bill-documents>

sy'n byw yng Nghymru. Mae polisi Llywodraeth Cymru hefyd yn gwarantu hawliau dynol drwy ymgorffori hynny mewn modd anuniongyrchol, yn y canlynol:

1. Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011<sup>31</sup>
2. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<sup>32</sup>
3. Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018<sup>33</sup>
4. Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru ac Asesiadau Effaith Cydraddoldeb cysylltiedig<sup>34</sup>
5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>35</sup>
6. Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (2021) o dan Ddeddf Cydraddoldeb y DG 2010.<sup>36</sup>

Yn ogystal â hyn, mae nifer o fentrau polisi wedi mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a brofir gan gymunedau sydd ar y cyrion yn sgil nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys:

1. Cynllun Cenedl Noddfa (2019)<sup>37</sup>
2. Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru (2020)<sup>38</sup>
3. Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022)<sup>39</sup>
4. Cynllun Gweithredu LHDTc+ Cymru (2023).<sup>40</sup>

Ar wahân i'r gwaith hwn, mewn ymchwil a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru, nodwyd diffyg aliniad a gweithrediad ynghylch hawliau dynol a chydraddoldeb o fewn y fframwaith deddfwriaethol a pholisi cyfredol, a bod elfen o anghytgord rhwng hawliau dynol a llesiant mewn polisi ac ymarfer ledled Cymru.<sup>41</sup>

Mae datganoli hefyd yn rhoi pwerau sylweddol i Lywodraeth Cymru dros addysg sy'n creu cyfleoedd i ddatblygu heddwch cadarnhaol. Mae'r Cwricwlwm newydd (2022) i Gymru er enghraifft yn cyflwyno themâu trawsbynciol sy'n cynnwys hawliau dynol, amrywiaeth, a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i gyflwyno heddwch cadarnhaol i ddyluniad y cwricwlwm, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu dinasyddiaeth sy'n 'amlochrog,

gan fyfyrion ar eu rolau a'u cyfrifoldebau a chydabod yr amrywiaeth'.<sup>42</sup> Yn ogystal â hynny, gellir defnyddio'r cysyniad o *gynffwrdd*, sy'n rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, i gyfrannu at greu ymdeimlad cryf o gymuned ac o berthyn ymhlith dysgwyr,<sup>43</sup> tra bo trywydd y Llywodraeth ym mis Mawrth 2023 ar gyfer y gyfundrefn addysg yn cyflwyno'r nod y dylai pob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir, gael ei gefnogi 'i fod yn ddinesydd [sy'n ymgysylltu] ...sy'n foesebol, [ac] yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith'.<sup>44</sup>

Ochr yn ochr â'r cwricwlwm cenedlaethol, mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn cyflwyno cynllun Ysgolion Heddwch cenedlaethol gyda chefnogaeth gan Academi Heddwch Cymru.<sup>45</sup> Mae'r cynllun hwn yn helpu ysgolion i ddatblygu heddwch ar draws thema drawsgwricwlaidd, ac yn rhan o fywyd bob dydd yr ysgol. Mae Rhwydwaith Ysgolion Cysylltiedig UNESCO (ASPnet) yn cysylltu sefydliadau addysgol ar draws y byd o amgylch nod cyffredin: adeiladau amddiffynfeydd heddwch ym meddyliau plant a phobl ifanc.<sup>46</sup> Mae dros 100 o ysgolion yn y DG yn rhan o'r rhwydwaith hwn, gan gynnwys rhai ysgolion yng Nghymru. Mae Addysg Oedolion Cymru (AOC) hefyd yn cynnig cwrs Dysgu Byd-eang deg wythnos o hyd yn rhad ac am ddim i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru,<sup>47</sup> ac wedi cydnabod pwysigrwydd rhaglenni addysg heddwch mewn addysg ôl-16.<sup>48</sup>

Yn y sector Addysg Uwch, ffurfiwyd Sefydliad y Ddynoliaeth Fyd-eang dros Heddwch yn 2021 ar y cyd rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Sefydliad Heddwch Guerrand-Hermès. Mae'r Sefydliad yn cynnal ymchwil ym maes heddwch ac agweddau heddychlon, ac yn bwriadu darparu Rhaglen Feistr ar Astudiaethau Heddwch cyn bo hir.<sup>49</sup> Mae Prifysgolion Cymru wedi cynnal ystod o astudiaethau a phrosiectau ymchwil perthnasol, rhai wedi'u hariannu gan gyrff allanol, ac wedi cyflwyno 10 Astudiaeth Achos Effaith i FfRhY 2021 a oedd yn ymwneud â heddwch. Cyflawnir llawer mwy o ymchwil ym Mhrifysgolion Cymru yn gysylltiedig â heddwch cadarnhaol nag a nodir yn benodol fel ymchwil i'r maes hwnnw, ond mae rhan helaeth o'r gwaith heb ei gydnabod gan nad oes digon o gymhellant i wneud hynny. Hyd yn ddiweddar, nid yw'r rhan fwyaf o ymchwil academaidd yn gyffredinol (gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth ac arloesi) wedi cael ei chydgyssylltu, nid yn unig rhwng Prifysgolion Cymru, ond hyd yn oed oddi mewn i brifysgolion unigol. Fodd bynnag, yn dilyn adroddiad yn 2018 gan Graeme

<sup>31</sup> Gweler <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents/welsh> 32 Gweler [https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw\\_20140004\\_we.pdf](https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf)

<sup>33</sup> Gweler <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/welsh>

<sup>34</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus.html>

<sup>35</sup> Gweler <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

<sup>36</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-trosolwg>

<sup>37</sup> Gweler [https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches\\_1.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_1.pdf)

<sup>38</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/cynllun-hyrwyddo-cydraddoldeb-rhwng-y-rhywiau.pdf>

<sup>39</sup> Gweler [https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-12/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol\\_0.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-12/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol_0.pdf)

<sup>40</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-02/cynllun-gweithredul-lhdtc-cymru.pdf>

<sup>41</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-08/cryfhau-a-hyrwyddo-cydraddoldeb-a-hawliau-dynol-yng-nghymru-crynodeb.pdf>

<sup>42</sup> Gweler <https://hwb.gov.cymru/cwricwlwm-ar-gyfer-cymrhttps://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/#local,-national-and-international-contexts>

<sup>43</sup> Susan Chapman, Rosy Ellis, Gary Beauchamp, Lisa Sheriff, David Stacey, Jane Waters-Davies, Adam Lewis, Catherine Jones, Merris Griffiths, Sammy Chapman, Rachel Wallis, Elizabeth Sheen, Tom Crick, Helen Lewis, Graham French a Stephen Atherton 'My picture is not in Wales': pupils' perceptions of cynefin (belonging) in primary school curriculum development in Wales, Education 3-13, 51:8, 1214-1228, 2023 <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/03004279.2023.2229861> Gweler hefyd <https://www.llyw.cymru/adroddiad-terfynol-gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiadd-lleiafrifoedd-ethnig-yn-y-cwricwlwm>

<sup>44</sup> Cenhadaeth ein Cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb, Llywodraeth Cymru 21 Mawrth 2023; <https://www.llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-dyheadau-uchel-i-bawb.html> cyrchwyd 18 Rhagfyr 2023

<sup>45</sup> Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru 'Ysgolion Heddwch' <https://www.wcia.org.uk/cy/dysgu-byd-eang/ysgolion-heddwch-yng-nghymru/> cyrchwyd 06.12.2023.

<sup>46</sup> Gweler <https://www.unesco.org/cy/aspnet/need-know>

<sup>47</sup> Gweler <https://www.adultlearning.cymru/en/cwrs/51245#>

<sup>48</sup> Gweler <https://www.learningandwork.wales/news-and-policy/peace-education-in-adult-learning/>

<sup>49</sup> Gweler <https://ghfp.institute/positive-peace/>



Reid ar gyllid ymchwil yng Nghymru,<sup>50</sup> mae Prifysgolion Cymru wedi bod yn cydweithio'n agosach ym maes ymchwil ac arloesi, yn enwedig drwy Rwydwaith Arloesi Cymru (RhAC). Mae hyn yn sefydlu amgylchedd sy'n fwy cydnaws â chydweithio, tra bo Academi Heddwch Cymru a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn sefydlu rwydwaith o ymchwilwyr heddwch ledled Cymru, yn gysylltiedig â phartneriaid a rwydweithiau ymchwil rhyngwladol. Mae'n amlwg felly fod cyfleoedd yn bodoli i wneud yn fwy o'r doniau sy oddi mewn i Brifysgolion Cymru er mwyn hyrwyddo heddwch - yn y byd ymchwil a'r byd addysgu - a thra bo rhai elfennau o hyn yn bodoli eisoes mae'r cymhellion ar gyfer hynny'n brin mewn sector sydd wedi datblygu i fod yn hynod gystadleuol.

## Asesu'r Cynnydd tuag at Gymru fel Cenedl Heddwch

Ar gyfer ein hymchwil cefndir, bu Richard Newton Consulting yn dadansoddi perfformiad cyfredol Cymru o ran heddwch cadarnhaol drwy ddefnyddio fframwaith y 'conglfeini' a ddyluniwyd gan y Sefydliad Economeg a Heddwch (IEP, gweler Ffigur 1 uchod). Rydym wedi rhoi crynodeb o hyn yn Nhabl 1, ac wedi cynnwys y dadansoddiad manylach yn Atodiad 1.

Tabl 1: Cymru fel Cenedl Heddwch – Crynodeb o'r Sefyllfa Bresennol

Conglfaen	Perfformiad (Da, Cymysg, Gwael) <sup>51</sup>
Llywodraeth sy'n Gweithredu'n Dda	Cymysg-Da.
Dosbarthu Adnoddau mewn Modd Teg	Gwael-Cymysg.
Gwybodaeth yn Llifo'n Rhydd	Cymysg-Gwael.
Perthnasoedd Da â Chymdogion	Cymysg.
Lefelau Uchel o Gyfalaf Dynol	Cymysg-Gwael.
Derbyn hawliau pobl eraill	Da-Cymysg.
Lefelau Isel o Lygredd	Cymysg-Da.
Amgylchedd Busnes Cadarn	Gwael.

<sup>50</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/adolygiad-o-ymchwil-ac-arloesi-a-ariennir-gan-y-llywodraeth-adolygiad-reid.pdf>

<sup>51</sup> Syniadau bras yw'r rhain yn unig. Lle nodir dau werth (e.e., cymysg-gwael), mae hyn yn golygu bod y pwyslais ar y gwerth cyntaf, ond bod elfennau wedi'u cynnwys yn yr olaf.

Er y bu cynnydd sylweddol tuag at heddwch cadarnhaol mewn rhai meysydd, ac y bydd rhai polisiau yn gwella perfformiad Cymru ymhellach, mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod llawer o waith eto i'w wneud.

Serch hynny, cafeat pwysig yw mai fframwaith wedi'i ddylunio i ddadansoddi perfformiad gwladwriaethau yn hytrach na chenhedloedd datganoledig yw hwn, ac mae llawer o'r mynegeion perfformiad yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y DG yn ei chyfanrwydd yn hytrach na sefyllfa Cymru (am ragor o fanylion, edrychwch ar Atodiad 1). Ar ben hyn, yn ei Adroddiad yn 2022, mae'r IEP yn darparu astudiaeth achos o'r hyn a ddisgrifir ganddo fel perfformiad 'gwael' y DG, gan briodoli rhan helaeth o hyn i densiynau (byrhoedlog o bosib) yn gysylltiedig â Brexit. Ei gasgliad yw ei bod hi'n 'bosibl i'r DG wrthweithio'r tueddiadau hyn yn y blynyddoedd nesaf. Ond ar gyfer hynny bydd angen eglurder a phenderfyniad gan awdurdodau, yn ogystal â pholisiau sy'n hyrwyddo cynnwys gwahanol safbwyntiau o fewn cymdeithas.<sup>52</sup> Serch hynny, yn ei 'dabl cynghrair' ar gyfer 2024 (y Mynegai Heddwch Cadarnhaol Byd-eang), asesodd yr IEP fod y DG wedi disgyn o'r 18fed safle yn 2022 i'r 20fed safle (o blith 163 o wladwriaethau). Mewn cyferbyniad â hyn, mae'r tair cenedl sydd wedi'u cydnabod fwyaf fel 'cenedloedd heddwch' - Norwy, Sweden a'r Swistir - oll ymhlith y pump uchaf.<sup>53</sup>

## Tuag at Gymru fel Cenedl Heddwch

Nid oes glasbrint parod ar gyfer 'Cenedl Heddwch'. Mae llawer, yn hytrach, yn dibynnu ar gyd-destunau cenedlaethol. Er bod rhai elfennau cyffredin rhwng yr ymagwedd at bolisi tramor mewn cenedloedd heddwch sy eisoes yn bodoli yn Ewrop, mae heddwch yn golygu mwy na pherthnasoedd allanol - mae hefyd yn golygu sut mae cenedl a'i chymunedau'n cyd-fyw, eu gwerthoedd a'u dyheadau am fyd gwell. Bydd yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Genedl Heddwch felly'n amrywio rhwng y naill wladwriaeth a'r llall, oherwydd yr amrywiaeth o gyd-destunau lleol. Er ein bod yn nodi isod rai egwyddorion bras y mae Cenedloedd Heddwch yn debygol o'u rhannu, bydd eu hunion natur - o ran blaenoriaethau, dehongliad, gweithrediad - yn amrywio rhwng y naill wladwriaeth a'r llall.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod gan Gymru botensial clir i fod yn Genedl Heddwch. Ar ben hynny, mae polisiau fel *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)* a'r ymrwymiad i gyrraedd sero net yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn gallu arloesi yn ogystal â rhoi arweiniad a gweledigaeth sydd â'r potensial i weddnewid pethau.

Dylai tair ystyriaeth allweddol fod yn sail i'n dealltwriaeth o Gymru fel Cenedl Heddwch.

Yn gyntaf, nid yw bod yn Genedl Heddwch yn ymwneud â strwythurau na hyd yn oed polisiau - mae'n ymwneud â hunaniaeth. Bydd y dull o fynegi'r hunaniaeth honno yn amrywio yn ôl cyd-destunau cenedlaethol, ond ym mhob achos bydd yn ymwneud â'r berthynas ailadroddol barhaus rhwng y modd y mae cenedl yn ei gweld ei hun (naratifau a storïau y mae'n eu dweud wrthi ei hun am ei hunaniaeth) a'r hyn y mae'n ei wneud (hynny yw, ei pholisiau, yr hyn y mae'n ei gefnogi, a'r modd y mae'n ymddwyn ac yn ymateb mewn cyfnodau o argyfwng). Byddai sefydlu hunaniaeth o'r fath i Gymru nid yn unig yn ysbrydoliaeth i weithredu ond dylai ddiffinio pwy ydym ni fel cenedl.

Yn ail, mae bod yn Genedl Heddwch yn ymwneud â pherthnasoedd a'r dull o'u cynnal. Fel mae'r adroddiad gan Sefydliad Heddwch Fflandrys yn dadlau: 'Mae heddwch nid yn unig yn werth i'w hyrwyddo ond hefyd yn berthynas i'w hymarfer. Drwy chwilio am gydweithrediad a dwyochredd lle bynnag y bo modd, caiff perthnasoedd heddychlon eu cryfhau a'u hyrwyddo.'<sup>54</sup> Felly er mwyn bod yn Genedl Heddwch mae angen cynnal deialog fel ffordd o fyw, a bod yn agored i wahanol safbwyntiau a chredoau. Mae'n golygu meithrin partneriaeth yn hytrach na chystadleuaeth, a cheisio cydweithredu yn hytrach na gwrthdaro ag eraill, waeth a ydynt o'r un meddylfryd ai peidio.

Yn drydydd, mae bod yn Genedl Heddwch yn golygu mwy na chyfres o gynlluniau polisi i'w gweithredu gan y Llywodraeth; yn hytrach, mae hi'n broses barhaus. Mae'n ymwneud â'r cyfeiriad yr ydym yn teithio iddo yn hytrach na chyfres o dargedau i'w cyrraedd. Bydd ystyr ymarferol bod yn Genedl Heddwch yn esblygu dros amser, wrth i gymdeithasau newid a heriau newydd ddod i'r amlwg. Er hynny, mae'r egwyddorion sylfaenol yn debygol o aros yr un peth, sef dulliau di-drais, cydweithredu, cyfiawnder cymdeithasol, parch a thegwch.

<sup>52</sup> Gweler <https://www.economicsandpeace.org/wp-content/uploads/2024/04/PPR-2024-web.pdf> t.48.

<sup>53</sup> *ibid.*, t.10.

<sup>54</sup> Sellerlach & Van Alstein, t.31.

Ar sail hyn, mae'n glir na all troi'n Genedl Heddwch fod yn broses o'r brig i lawr, ac yn rhywbeth a gyflawnir drwy offerynnau deddfwriaethol neu ddatganiadau yn unig - er y bydd arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru yn hollbwysig. Yn hytrach, bydd yn golygu ymgysylltu â chymdeithas sifil a phobl Cymru. Mae hefyd yn golygu sefydlu naratif clir fel Cenedl Heddwch, gan ddefnyddio ein hanes a'n diwylliant, ond hefyd drwy gefnogi addysg heddwch ar bob lefel - gan gynnwys ysgolion, addysg oedolion, addysg bellach ac uwch. Gall fod cyfleoedd penodol i Lywodraeth Cymru arwain y blaen, yn enwedig o ran gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn i heddwch ddod yn rhan o bwy ydym ni. Dyma enghreifftiau posibl: mabwysiadu heddwch cadarnhaol fel thema drawsbynciol ar gyfer comisiynu gwasanaethau cyhoeddus a chyllid grant; cynnwys heddwch cadarnhaol yn benodol yn y saith Nod Llesiant ac yng nghylch gorchwyl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; a chynnwys hyrwyddo heddwch cadarnhaol yng nghylch gorchwyl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cefnogi grwpiau cymdeithas sifil ac ymgysylltu â nhw.

Gall Llywodraeth Cymru fod yn weithgar wrth hyrwyddo heddwch yn rhyngwladol. Er bod pwerau dros faterion tramor ac amddiffyn wedi'u cadw'n ôl gan Lywodraeth San Steffan, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu gweithredu, er bod hynny mewn modd cyfyngedig, i hyrwyddo datblygiad rhyngwladol drwy fentrau fel rhaglen 'Cymru ac Affrica', a chefnogi Pwyllgor Argyfwng Trychinebau Cymru. Gall Cymru hefyd ychwanegu ei llais at drafodaethau byd-eang ynghylch heddwch, fel y gwnaeth yn nadl y Senedd yn 2023 ar y rhyfel yn Gaza. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd ffyrdd pwysig y gall eu defnyddio, yn enwedig ym meysydd addysg a diwylliant, i gychwyn trafodaethau â phartneriaid rhyngwladol, fel mai deialog yn hytrach na grym sy'n nodweddu'r perthnasoedd hyn. Byddem hefyd yn annog ystyriaeth o'r modd y gellir ymgorffori hyrwyddo heddwch yn rhan o raglenni presennol, fel y Nodau Llesiant a Taith. Gallai mentrau newydd sy'n dyfnhau heddwch yn ein hunaniaeth genedlaethol gynnwys sefydlu arddangosfeydd parhaol am dreftadaeth heddwch Cymru yn yr Amgueddfa Genedlaethol ac yn y Llyfrgell Genedlaethol.<sup>55</sup>

Mae sefydlu ein hunaniaeth fel Cenedl Heddwch yn golygu mwy na'r naratifau rydym yn eu hadrodd - mae hefyd yn golygu'r hyn yr ydym yn ei wneud - a gall nid yn unig Llywodraeth Cymru, ond awdurdodau lleol hefyd, chwarae rhan bwysig yma. Gan ddilyn yr enghraifft a osodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i saith Nod Llesiant, rydym yn cynnig chwe Nod Heddwch i Gymru a ddylai fod yn sail ar gyfer datblygu polisi:

1. Perthynas dda â chymdogion.
2. Llywodraethu da gan gynnwys lefelau isel o lygredd, gwybodaeth sy'n llifo'n rhydd a lefelau uchel o lythrennedd y cyfryngau.
3. Cyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys dosbarthu adnoddau mewn modd teg a pharch tuag at hawliau dynol.
4. Amgylchedd busnes cadarn a moesegol, gyda lefelau uchel o gyfalaf dynol.
5. Hyrwyddo'r gwerthoedd diwylliannol hynny sy'n parchu gwahaniaeth ac yn hyrwyddo goddefgarwch.
6. Diogelu'r amgylchedd naturiol.

Dylid datblygu manylion y rhain yn rhan o sgwrs genedlaethol a fydd yn arwain at Fanifesto Heddwch Cenedlaethol. Dylai'r Manifesto hwnnw fod yn seiliedig ar ddeddfwriaeth debyg i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Drwy ddatblygu Manifesto Cenedlaethol dros Heddwch, credwn y gall Cymru arwain y byd, ac yn enwedig rhanbarthau is-wladwriaethol eraill, yn y modd y mae'n hyrwyddo heddwch.

Mae'r diwydiant amddiffyn a phresenoldeb y Lluoedd Arfog Prydeinig yng Nghymru yn fater arbennig o gymhleth. Mae Cymru'n dibynnu ar gyfraniad economaidd nifer o ddiwydiannau sy'n gysylltiedig â'r Lluoedd Arfog Prydeinig a nwyddau'n gysylltiedig ag amddiffyn. Mae'n gartref hefyd i nifer sylweddol o orsafoedd y Lluoedd Arfog Prydeinig, ac mae teuluoedd y Lluoedd Arfog yn aelodau o gymunedau ledled Cymru. Mae cymdeithas sifil yng Nghymru yn cefnogi cyn-filwyr a lluoedd sy'n gwasanaethu drwy gymorth elusennol a gweithgareddau coffa. Gellid dweud bod llawer o'r presenoldeb hwn yn groes i uchelgais y weledigaeth o Gymru fel Cenedl Heddwch.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd canolfannau milwrol a sefydliadau amddiffyn eraill yng Nghymru i luoedd arfog y DG ar y naill law, nac i'r economi leol ar y llaw arall. Nid ydym ychwaith yn gwybod beth yw potensial rhaglenni trosi ac arallgyfeirio arfau - fel Cynllun Newydd Lucas<sup>56</sup> - o ran cynnig ffordd ymlaen tuag at leihau dibyniaeth ar y diwydiant amddiffyn yng Nghymru. Ni wyddom ychwaith beth fyddai maint yr effaith ar ddiwylliant Cymru - o ran agweddau cadarnhaol a negyddol - nac ychwaith faint o hyblygrwydd sydd i'w gael â Llywodraeth y DG yn Llundain yn y cyd-destun hwn o ran polisi, yn enwedig lle bo rheoliadau cynllunio lleol yn berthnasol. Fodd bynnag, mae cynsail pwysig eisoes wedi'i sefydlu i aildychmygu diwydiant Cymru, gyda chynlluniau Llywodraeth Cymru i gyrraedd sero net erbyn 2050.

Mae Academi Heddwch Cymru felly yn cynnig y dylid cynnal rhaglen ymchwil ar raddfa fawr i archwilio rôl y diwydiant milwrol ac amddiffyn yng Nghymru, gan gynnwys ei effaith ar yr economi, ar ddiogelwch, ar ddiwylliant ac ar gymunedau, ac oddi mewn i gyfyngiadau'r setliad datganoli. Byddai ymchwil o'r fath yn cynnwys mewnbwn gan y gymdeithas sifil yng Nghymru, gan lywodraeth leol a chenedlaethol, diwydiant, a Llywodraeth y DG, er mwyn cyflwyno cyfres glir o argymhellion i Gymru a Llywodraeth Cymru.

<sup>55</sup> Ar hyn o bryd, nid yw casgliad sylweddol o archifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru am heddwch ond yn cael ei hyrwyddo drwy dudalen we syml 'Rhyfel a Heddwch', nad oes unrhyw gyfeiriad ati ar ei hafan. Gweler <https://www.lyfrgell.cymru/archifwleidyddolgydreig/archifau-fesul-thema>. Mae archif ac arddangosfa fechan ar Gymru a heddwch hefyd yn cael eu cadw yn y Deml Heddwch ac lechyd yng Nghaerdydd, ochr yn ochr ag adnoddau amlwg ar y we. Gweler <https://www.wcia.org.uk/cy/treftadaeth-heddwch/>.

<sup>56</sup> Strategaeth i arallgyfeirio arfau yw Cynllun Newydd Lucas, a ddatblygwyd ar sail Cynllun Lucas 1976. Yn wyneb toriadau o ran costau a diswyddiadau, datblygodd stiwardiaid siop yn Lucas Aerospace yng nghanol y 1970au gynigion ynghylch sut i newid y cwmmi, o ganolbwyntio ar y diwydiant amddiffyn oedd ar drai tuag at ganolbwyntio ar gynnyrch a fyddai'n fwy defnyddiol i gymdeithas. Gweler <https://lucasplan.org.uk/>



## Atodiad 1: Cymru fel Cenedl Heddwch: Y Sefyllfa Bresennol

Ffynhonnell: Richard Newton Consulting 2024

Conglfaen	Perfformiad
Llywodraeth sy'n Gweithredu'n Dda	<p>Ar hyn o bryd mae llywodraeth ddatganoledig Cymru yn cael ei harwain gan Lywodraeth Lafur leiafrifol.</p> <p>Yn sgil Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), a gynigiwyd gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, ac a gefnogwyd gan fwyafrif Aelodau'r Senedd yn 2022, bydd dull y Senedd o weithredu, a'r modd y gweithredir gwleidyddiaeth yng Nghymru, yn newid yn sylweddol.<sup>57</sup> Mae Llywodraeth Cymru yn honni y bydd y newidiadau yn gwella'r ffordd y mae'r Senedd yn gweithredu, ac yn cryfhau democratiaeth yng Nghymru. Ceir gwrthwynebiad i'r Bil o du'r Ceidwadwyr Cymreig, ac mae'r newidiadau'n debygol o gostio oddeutu £18m yn ôl ffigurau'r Llywodraeth.</p> <p>Mae'r newidiadau hyn wedi'u cynllunio i wella'r ffordd y mae'r llywodraeth yn gweithredu, ac os byddant yn llwyddiannus, byddant yn cyfrannu at sicrhau llywodraeth sy'n gweithredu'n dda, sef un o gonglfeini hanfodol Heddwch Cadarnhaol.</p> <p>Mae'r model datganoli lle cedwir pwerau'n ôl yn golygu nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth lwyr dros ei chyfreithiau na'i hincwm - mae'r rhain yn ffactorau sy'n amharu ar allu'r genedl i sicrhau Heddwch Cadarnhaol.</p> <p>Mae'r graddau y mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu'n dda, neu fel arall, yn deillio'n rhannol o'i pherthynas â San Steffan, oherwydd y cysylltiadau ariannol rhyngddynt, a'r pwerau sydd wedi'u cadw'n ôl. Yn ôl Sefydliad Bennett ar gyfer Polisi Cyhoeddus, bu dirywiad nodedig yn y berthynas rhwng y llywodraethau datganoledig a'r llywodraeth ganolog yn Llundain rhwng 2016 a 2019.<sup>58</sup> Mae'n mynd rhagddo i nodi ymagwedd fwy ymosodol Boris Johnson at y berthynas hon, gan wneud penderfyniadau wrth negodi Brexit a effeithiodd ar allu'r cenedloedd datganoledig i wneud eu penderfyniadau eu hunain o ran rheoleiddio.</p> <p>Roedd penderfyniadau cyllido yn ymwneud â Ffyniant Bro yn diystyru penderfyniadau'r cenedloedd datganoledig i'r un graddau.</p> <p>Amlygwyd yr agwedd hon ymhellach yn Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19, lle rhoddwyd tystiolaeth bod Boris Johnson wedi mynegi y byddai'n creu'r argraff anghywir iddo gynnal cyfarfodydd rheolaidd ag arweinwyr y cenedloedd datganoledig, a bod gweinidogion yn San Steffan yn ofni y gallai Covid fod yn 'geffyl Troea i ffederalwyr'.<sup>59</sup></p> <p>Bydd perthynas wael â Llywodraeth y DG yn naturiol yn effeithio ar y graddau y gall Llywodraeth Cymru weithredu, a'r graddau y gall y naill a'r llall gydweithio er mwyn cyflawni er budd pobl yng Nghymru.</p>

<sup>57</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/cynlluniau-ar-gyfer-senedd-fodern-fwy-cynrychiadol>

<sup>58</sup> Gweler <https://www.bennettinstitute.cam.ac.uk/blog/uk-and-devolved-governments/>

<sup>59</sup> Gweler <https://www.opendemocracy.net/en/ministers-feared-federalist-trojan-horse-covid-inquiry-devolved-nations/>

Conglfaen	Perfformiad
Dosbarthu Adnoddau mewn Modd Teg	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol,<sup>60</sup> sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig ystyried sut y gallai eu penderfyniadau fod o gymorth i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae data'r Llywodraeth yn awgrymu bod aelwydydd un rhiant yn fwy tebygol o ddiodef amddifadedd materol; ac mae plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn profi deilliannau addysgol is na'u cyfoedion nad ydynt yn gymwys i dderbyn y prydau - mae'r bwlch hwn yn lledu ar lefel TGAU. Mae'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yng Nghymru yn lleihau, fel y mae'r bylchau cyflog ethnigrwydd ac anabled. Mae pobl 16-24 oed bellach yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n unig na'r rhai dros 65 oed, ac mae'r rhai ag anabledau cyfyngol, LHDTC+, a'r rhai nad ydynt yn Wyn Prydeinig, oll yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n unig. Mae disgwyliad oes iach yn parhau i fod yn is ymhlith pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd.</p> <p>Plant yw'r grŵp poblogaeth sy'n fwyaf tebygol o brofi tlodi incwm cymharol - profodd 31% o blant yng Nghymru hyn rhwng 2017-2020, o gymharu ag 18% o bensiynwyr.<sup>61</sup></p> <p>Yn 2021-22, nodwyd bod 11% oedolion ag amddifadedd materol (yn methu fforddio cadw eu cartrefi'n gynnes, cynilo'n rheolaidd neu fynd ar wyliau blynyddol) - ond daw'r data hyn o'r cyfnod cyn yr argyfwng costau byw cyfredol.<sup>62</sup></p> <p>Cyrhaeddodd lefelau tlodi parhaus (tlodi incwm cymharol am gyfnod o 3 allan o 4 blynedd yn olynol) 12% ar gyfer oedolion yng Nghymru rhwng 2016 a 2020.<sup>63</sup></p> <p>Mae'r Ymddiriedolaeth Cydraddoldeb hefyd yn dangos bod cyfoeth wedi'i wasgaru'n anghyson ar draws Prydain Fawr.<sup>64</sup> Mae'r DG ymhlith y gwledydd sydd â'r lefelau uchaf o anghydraddoldeb incwm yn Ewrop. Cyfanswm cyfoeth canolrifol aelwydydd yng Nghymru (Ebrill 2018-2020) oedd £275,700 yn erbyn ffigur o £503,400 ar gyfer De-ddwyrain Lloegr, a £168,500 ar gyfer Gogledd-ddwyrain Lloegr.</p> <p>Mae'r data hyn yn awgrymu bod y nod o ddsbarthu adnoddau yn gyfartal yng Nghymru ymhell o gael ei gyflawni.</p>

<sup>60</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/cymru-fwy-cyfartal-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol-html>

<sup>61</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2022-cymru-syn-fwy-cyfartal-html#103973>

<sup>62</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2022-cymru-syn-fwy-cyfartal-html#103973>

<sup>63</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2022-cymru-syn-fwy-cyfartal-html#103973>

<sup>64</sup> Gweler <https://equalitytrust.org.uk/scale-economic-inequality-uk>

Conglfaen	Perfformiad
Gwybodaeth yn Llifon Rhydd	<p>Ym mis Mawrth 2021, casglodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd fod y 'cyflenwad o gynnwys y cyfryngau i Gymru yn annigonol',<sup>65</sup> yn enwedig o ran y newyddion a materion cyfoes.</p> <p>Canfu astudiaeth yn 2020 ar gyfer yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod newyddiaduraeth leol yn allweddol er mwyn craffu ar ddemocratiaeth.<sup>66</sup></p> <p>Mae papurau newydd Cymru yn dirywio - ers 2008 mae cylchrediad y Western Mail wedi gostwng dros 75% ac mae cylchrediad y Daily Post wedi haneru, gan adlewyrchu perfformiad y papurau newydd dyddiol ar raddfa'r DG.</p> <p>Mewn ymateb i hyn, ac i ganfyddiadau eraill tebyg, ac mewn ymgais i gefnogi sector y cyfryngau, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid i gefnogi newyddiaduraeth leol ym mis Mehefin 2023.<sup>67</sup></p> <p>Fodd bynnag, mae cyn lleied â £200,000 o gyllid yn annhebygol o fod yn ddigon i wrthdroi'r dirywiad mewn newyddiaduraeth leol, a'r cyfle i graffu ar ddemocratiaeth yn sgil hynny. Wrth i fwy a mwy o bobl droi at lwyfannau heb eu rheoleiddio ar y cyfryngau cymdeithasol i gael eu defnyddio, mae'n bwysicach nag erioed cymryd camau sylweddol i sicrhau bod gwybodaeth yn parhau i lifon rhydd yng Nghymru.</p>
Perthnasoedd Da â Chymdogion	<p>Â hithau'n ynys, nid oes gan y Deyrnas Gyfunol ffin uniongyrchol ag unrhyw wlad arall. Er bod anghytuno o ran materion fel annibyniaeth, datganoli a hunaniaeth genedlaethol o fewn y DG, nid oes unrhyw aflonyddwch sifil, na thebygolrwydd o hynny, rhwng Cymru a'r tair gwlad arall.</p> <p>Mae Brexit, yn naturiol, wedi effeithio ar berthnasoedd â'n cymdogion agosaf yn Ewrop, yn enwedig o ran rhwystrau i fasnach, yr economi, symudiad llafur a pholisi tramor. Fodd bynnag, er bod y rhain yn cael effaith sylweddol ar fywyd yng Nghymru, mae'n annhebygol y byddant yn arwain at aflonyddwch sylweddol.</p> <p>Fodd bynnag, mae gan Gymru draddodiad hir o brotestio sifil yn erbyn arfau a rhyfel, a dangosodd pleidlais y Senedd ar Gaza yn 2023 ei pharodrwydd i geisio dylanwadu ar ryfeloedd yn rhannau eraill y byd (waeth pa mor gyfyngedig yw'r dylanwad hwnnw).</p>

<sup>65</sup> Gweler <https://senedd.cymru/media/vjpf0fi4/cr-ld14207-e.pdf>

<sup>66</sup> Gweler [https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5f7b4673e90e070dec5d9e29/Plum\\_DCMS\\_press\\_sector\\_dynamics\\_-\\_Final\\_Report\\_v4.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5f7b4673e90e070dec5d9e29/Plum_DCMS_press_sector_dynamics_-_Final_Report_v4.pdf)

<sup>67</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/y-newyddion-diweddaraf-cyllid-newydd-i-gefnogi-newyddiaduraeth-leol-yng-nghymru>

Conglfaen	Perfformiad
Lefelau Uchel o Gyfalaf Dynol	<p>Mae gwybodaeth, sgiliau ac iechyd yn elfennau allweddol o Gyfalaf Dynol. Gwyddom fod tlodi yn cael effaith sylweddol ar gyrhaeddiad addysgol, iechyd, a disgwyliad oes pobl, a bod hynny felly'n cael effaith negyddol ar lefelau'r cyfalaf dynol sydd ar gael yng Nghymru.</p> <p>Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i wella cyfalaf dynol drwy gymryd camau cadarnhaol, gan gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid</li> <li>2. Cynllun Gweithredu Cyfiawnder Ieuenctid</li> <li>3. Strategaeth Gordewdra Cymru Iach</li> <li>4. Cynllun Cydraddoldeb</li> <li>5. Cymraeg 2050</li> <li>6. Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol</li> <li>7. Strategaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd</li> <li>8. Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol</li> <li>9. Cynllun Gweithredu LHDTTC+</li> <li>10. Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif</li> <li>11. Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio</li> <li>12. Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched</li> <li>13. Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus.</li> </ol>

Conglfaen	Perfformiad
Derbyn hawliau pobl eraill	<p>Mae statws Cymru fel Cenedl Noddfa, a gwaith sy'n cynnwys cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol, cynllun gweithredu LHDTTC+, cynllun gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oll yn cyfuno i greu delwedd o Gymru sy'n derbyn, ac yn eiriol dros hawliau eraill. Er hynny, o ran troseddau casineb yng Nghymru yn 2020-2022:<sup>68</sup></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Barnwyd bod hil yn ffactor ysgogol yn 66% o'r achosion</li> <li>2. Bod cyfeiriadedd rhywiol yn ffactor yn 19% ohonynt</li> <li>3. Bod hunaniaeth o ran rhywedd yn ffactor yn 4% ohonynt</li> <li>4. Bod anabledd yn ffactor yn 11% ohonynt.</li> </ol> <p>Mae'n amlwg bod mwy o waith i'w wneud er mwyn derbyn hawliau pobl eraill yng Nghymru.</p>
Lefelau Isel o Lygredd	<p>Mae'r DG wedi disgyn saith lle i'r 18fed safle ar fynegai canfyddiadau o lygredd Transparency International.<sup>69</sup> Mae ymddiriedaeth y cyhoedd yn Llywodraeth y DG wedi erydu, ac mae hynny'n debygol o ymdreiddio i wleidyddiaeth Cymru.</p> <p>Cyfeiriodd Transparency International at "restr gynyddol o broblemau" yn y DG, gan gynnwys contractau ar gyfer PPE yn ystod Covid-19, sgandalau'n cynnwys yr ASau Chris Pincher ac Owen Paterson, y trosiant uchel o Brif Weinidogion yn 2022, sgandal partïon Covid, a phenodi pobl â chysylltiadau gwleidyddol i rolau'r sector cyhoeddus yn ystod y pandemig. Maent yn cyfeirio at benderfyniad Rishi Sunak i benodi cynghorydd moeseg fel cam cadarnhaol. Er hynny, mae'r canfyddiad o lygredd yn y DG yn siŵr o effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o lygredd yng Nghymru hefyd.</p>

<sup>68</sup> Gweler <https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2022-cymru-syn-fwy-cyfartal-html#103973>

<sup>69</sup> Gweler <https://www.theguardian.com/uk-news/2023/jan/31/uk-global-corruption-index-transparency-international-qatar-russia-brazil>

Conglfaen	Perfformiad
Amgylchedd Busnes Cadarn	<p>Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru<sup>70</sup> yn disgrifio nodweddion strwythurol economi Cymru fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae ei phoblogaeth yn hŷn, yn llai iach, ac mae ganddi lefelau is o sgiliau a chyrhaeddiad addysgol na chyfartaledd y DG</li> <li>2. Mae ganddi sector cyhoeddus mwy</li> <li>3. Nid oes ganddi ryw lawer o ganolfannau economaidd mawr, ac nid yw'r rheiny wedi'u cysylltu'n dda â gweddill Cymru na'r DG</li> <li>4. Mae'n dal i deimlo effeithiau dad-ddiwydiannu graddfa fawr a'r symudiad i ffwrdd oddi wrth ddiwydiannau traddodiadol</li> <li>5. Mae'r pwerau cyllidol sydd wedi'u datganoli yn gyfyngedig, a'r sylfaen drethi'n fach, a phrin yw'r ffynonellau amlwg o refferiw newydd.</li> </ol> <p>Ceir felly wendidau sylweddol yn yr economi, fel sylfaen ar gyfer amgylchedd busnes cadarn, ac nid yw'n debygol y caiff y rhain eu datrys yn y tymor byr i'r tymor canolig.</p>

<sup>70</sup> Gweler <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/WCPP-Evidence-Briefing-The-Welsh-economy-skills-and-infrastructure.pdf>





